// YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 43. RHIF 11 EBRILL 2022 50c




***DARLUN ANHYGOEL O BLANT BETHEL, LERPWL YN OES AUR Y CAPEL***



*Capten tîm pêl-droed Lerpwl - Jordan Henderson yn dangos yr undod rhyngom ag un o wledydd sydd yn byw dan ormes Putin. Mae angen yr un undod yn erbyn Cadfridogion Creulon Myanmar*

## YN Y RHIFYN HWN

Golygyddol: Myfyrio ar Cynddilig ar Ddiwrnod Cyhoeddi Rhyfel yn Wcrain.

Newyddion Seion, Bethel, Bethania a Cymry Birkenhead.

Hunangofiant: Mynd i'r Pictiwrs.

Cyflwyno Gerwyn Williams.

Cyfarfod Cymdeithas Cymry Lerpwl.

Sosban Fach.

Neb i feiddio grwgnach.

Golygyddol

# Myfyrio ar Cynddilig ar Ddiwrnod Cyhoeddi Rhyfel yn Wcrain

## – gan D. Ben Rees

**Un o'r beirdd Cymraeg a ffieiddiodd rhyfel oedd yr athrylithgar T. Gwynn Jones (1871-1949). Bu pob rhyfel yn siom iddo a heddiw ar 24 Chwefror 2022 roedd yn siom i mi o glywed llais Vladimir Putin yn cyhoeddi i'r byd am 5 o'r gloch y bore ei fod ef am ddinistio Wcrain am fod gormod o Natsïaeth yn y tir. Rheswm ffug os bu un erioed. Cofiwn mai Iddew dewr yw Arlywydd Wcrain ac y mae ei arweiniad ef yn odidog. Gwelwn y gwahaniaeth mawr rhyngddo ef ag Arlywydd Ffederasiwn Rwsia. Enw ffiaidd i'w ynganu mewn cyfarfod yw ei enw ef - Hitler arall.**

Lluniodd T. Gwynn Jones gerdd o'r enw 'Cynddilig' yn seiliedig ar fyd ein chwedlau. Un o bedwar mab ar hugain Llywarch Hen oedd Cynddilig a'r unig un heddychlon yn eu mysg. Mynach yw Cynddilig, nid ymladdwr fel ei frodyr eraill. Mae Cynddilig yn mentro i faes y celanedd ar ôl ysgarmes fudr ac mae'n canfod corff ei frawd, Gwên, ochr yn ochr ag un o filwyr y Mers, 'ei elyn olaf'. Er mai gŵr heddychlon sy'n ffieiddio rhyfela yw Cynddilig wrth iddo weld corff drylliedig Gwên y mae hen reddf Gardd Eden yn deffro ynddo yntau ac yn ei feddiannu fel y digwyddodd filoedd o weithiau ar hyd y canrifoedd.

*A daeth rhysedd ei hil arno yntau Cynddilig,*
*a'i waed yn ffawd o dân i'w ffroen,*
*gan losgi drwy ganol ei esgyrn,*
*gan gnoi ei gnawd,*
*a Duw o'i enaid yn edwino,*
*Onid oedd ei holl anwydau ef*
*yn ddolur o ddialedd,*
*dialedd hen ei dylwyth.*

Cyffroïr Cynddilig. Tyn allan ddagr o gorff y milwr o Mers ac yna ei phlannu yn solet yn ôl yn ei galon. Daw iddo gydwybod anesmwyth wrth iddo sylwi ar ei weithred ffôl. Bellach ef yw'r unig un o feibion Llywarch Hen sydd ar dir y byw, ac y mae gan y tad hwnnw gywilydd ohono yntau ar ôl cydio yn y dagr.

Beth yw neges y gerdd? Dyma'r ateb. Y mae rhyfel yn dinistrio'r wlad, yn ei rheibio'n ddi-drugaredd, ac y mae pobl ynfyd yn barodi ladd ei gilydd mewn gwaed oer. Fi sydd yn eu galw yn ynfytyn, dynion ydynt i'r bardd. Gwelir dwy golomen yn codi o'r ddau gorff. Arwr y gerdd yw Cynddilig, tangnefeddwr ydoedd ond am eiliad ffôl pan ddaeth dialedd i lywodraethu ar ei reddfau. Bodlona dalu pris am ei lithriad o'r



ddelfryd, er mwyn achub caethferch rhag y bwystfilod a'r drwgweithredwyr, a gwelir tair colomen yn hedfan fel angylion yn yr awyr las uwchben. Tair colomen yn symbol perffaith, teimladwy o …

*Cymod, Tangnefedd a Brawdgarwch*
*ond ni ddaeth y weledigaeth iddo heb ddioddefaint drud,*
*A gwaw'i nwyd yn y gïau'n edwi,*
*ei ddialedd, ymgreiniodd Cynddilig,*
*yn y gwaed a thrwy'r rhedyn a'r gwellt,*
*drwy y drain a chwerwder ei drueni,*
*a baich ei bechod,*
*yn ei ing yr ymwingai*
*oni bu efô yn ei boen*
*fel marw ar gyfyl y meirwon,*
*y ddeugorff oedd agos*
*onid bod ynddo ef anad –*
*pob deisyfiad fel pe bai wedi sefyll,*
*bod wedi peidio â byw.*



***T. Gwynn Jones***

Dyma ddarn cignoeth sy'n dweud wrthym am yr ing, a baich ei ofidiau. Cariad fel cariad Crist oedd wedi llywio bywyd Cynddilig o'r funud yr atebod yr alwad i fod yn ddisgybl o fewn i'r fynachlog. Nid cariad sydd yn mesur a phwyso, ond cariad ar ei orau sydd yn afradlon ac yn gwbl onest. Ie yn agored, yn llawn cydymdeimlad ac yn garedig ei hysbryd. Cariad Duw yn lledu ei gysgod amdanom ar faes y gad fel ar faes y Gymanfa Bregethu ers talwm pan y byddem yn yr awyr agored yn gwrando ar lais yr Utgorn. Mae'r colomennod sy'n hedfan uwchben dinistr brwydr y Somme, brwydrau Syria ac Afghanistan, ac mae'n debyg dros dir ffrwythlon Wcrain lle yr

arferid dyfu ŷd i borthi'r miloedd yn cyhoeddi heb betrusder i arweinwyr gwan y Gorllewin fod y Cariad nad oes terfyn arno yn anorchfygol. Ond sut y mae gweld hynny pan ddaw'r bwledi a'r bomiau i ddiffodd einioes unigolion a chwalu cymunedau pobl sydd yn aros ymhlith eu cyfoedion?

Yr hyn a wnaeth erchylltra y Rhyfel Byd Cyntaf i T. Gwynn Jones oedd ei argyheddi mai ffordd heddwch yw'r unig ffordd ar gyfer y ddynoliaeth. Arhosai T. Gwynn Jones adeg y Rhyfel Byd Cyntaf am benwythnos ar aelwyd ei ffrind, y Parchedig E. Tegla Davies. Ac yn y sgwrs dyma Tegla'n dweud: "Mae'r hen ryfel yma wedi creu llawer o anffyddwyr". Fe gafodd y pregethwr ateb cwbl annisgwyl ac a'i lloriodd yn llwyr. Dyma eiriau'r bardd a'r ysgolhaig oedd ar fin derbyn Cadair Llenyddiaeth Cymraeg Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

> *'Ydy, ond wyddoch chi beth a wnaeth o i mi?*
> *Fy ngwneud yn Gristion.*
> *Roeddwn i'n meddwl bod dynoliaeth yn datblygu'n ara a sicr, drwy addysg a datblygiad a gwareiddiad, i rywbeth niwlog a alwn i yn Deyrnas Dduw.*
> *Heddiw rydw i'n gweld nad oes dim ond dau ddewis iddi – cyflawni hunanladdiad fel mae hi'n gwneud neu ail-greadigaeth drwy'r Arglwydd Iesu Grist?'*

Nid rhyfedd o gwbl fod y diweddar Barchedig O. M. Lloyd (gŵr hynaws ei ysbryd oedd ef) yn sôn amdano yn dysgu cerddi T. Gwynn Jones ar ei gof. Dysgodd bob gair o'r campweithiau sef 'Ymadawiad Arthur' (atgofion am D. Lloyd Jenkins yn ein swyno yn y Chweched Dosbarth gyda'i ddehongliad), 'Cynddilig', a rhannau helaeth o 'Gwlad y Bryniau'. Fel gweinidog ifanc yr Annibynwyr Cymraeg teithiai O. M. Lloyd ar hyd a lled Eifionydd i ddarlithio ar y testun 'Gweithiau T. Gwynn Jones'.

Mewn ysgrif yn y cylchgrawn byrhoedlog, *Y Llanw,* dywed yn O. M. Lloyd yn 1949 –

*Anfodlon oeddwn ar glywed ei ddisgrifio fel bardd paganaidd. Barn gwbl arwynebol oedd honno, o gofio'i waith yn gyfan*. Cytunaf bob gair ag ef. Bardd gwir Gristnogol oedd T. Gwynn Jones. Ni wn sut y gall Putin alw ei hun yn Gristion Eglwys Uniongred Rwsia ag yntau wedi torri pob rheol y byd gwareiddiedig yn ei ymosodiad ffïaidd gyda y wlad fawr honno, Wcrain.

Ar ddiwrnod cyntaf y gyflafan collwyd un dinesydd yn ei fflat, deugain o filwyr Wcrain, a cipio dau filwr o Rwsia yn garcharorion Rhyfel, a dim ond dechrau yw hyn. Bwriad Putin yw concro y gwledydd Baltig (Latfia, Lithuania, Estonia) a gwlad Pwyl mor fuan ag y bo modd. Mae'r dyfodol yn ddu iawn yn nechrau mis Mawrth eleni, ond fe ddaw hi'n well. Pam? Am fod gwledydd Ewrop i gyd yn barod i helpu Wrcain. Am fod cartrefi ar hyd y cyfandir yn barod i gynorthwyo trigolion ofnus y wlad. Gweddïwn dros y brifddinas. Dyna benawd y *Daily Mail* trannnoeth i ddiwrnod dathlu Dewi Sant.


**Cysylltwch â'r**

**YR ANGOR**
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**garthdriveben@gmail.com**



# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Annwyl gyfeillion. Dyma ni, aelodau Seion yn anfon ein cyfarchion cynnes iawn atoch unwaith eto gan obeithio eich bod wedi dod trwy'r gwyntoedd dychrynllyd heb lawer o ddifrod. Cydymdeimlwn â chi os yr ydych wedi dioddef yn enbyd.

Mae wedi bod yn gyfnod drwg iawn i lawer. Prinder dŵr a thrydan, llifogydd ac yn anabl i fynd allan oherwydd cryfder y gwynt.

Diolchwn yn fawr iawn i'r rhai oedd yn gweithio mor galed i roi cymorth i'r anghenus. Y noson waethaf yma oedd nos Sul, Chwefror y 20fed, roedd y gwynt yn rhuo o gwmpas y ty trwy'r nos ac eto nid oedd difrod o gwbl bore Llun.

Eto, er gwaethaf y tywydd mae Natur yn deffro yn araf deg i godi ein calonau. Bore Llun wrth edrych trwy ffenestr yr ystafell ffrynt sylwais fod llwyn ger y ffenestr yn llawn o ffrwyth (berries) lliw oren, yn hynod o brydferth ac yn rhoi hwb i'r galon.

Yn yr ardd gefn yn agos at y tŷ mae fy ffefryn i Y Japonica neu Japanese Quince yn Saesneg. Mae'r tymhorau yn dal i ddod yn eu tro beth bynag yw'r tywydd. Hyfryd yw deffro am saith o'r gloch y bore i olau ddydd!!

Erbyn hyn rydym yn nhymor y Grawys. Dydd Gŵyl Ddewi eisioes wedi dod ar Mawrth y cyntaf a hefyd "Dydd Mawrth Crempog" fel ei gelwir yn Sir Fôn, gyda'r dydd canlynol yn Ddydd Mercher Lludw. Rydym hefyd wedi dathlu ein cinio Gŵyl Ddewi ac yn edrych ymlaen at ddathlu'r Pasg, fydd wrth gwrs yn dilyn "Sul y Blodau".

Mae gennym gymaint i feddwl amdano a mwynhau. Byddwch lawen a diolchgar gan edrych ar yr ochr orau o bopeth ac rwyf yn credu ein bod yn ffodus iawn i gymharu â llawer gwlad.

Bob bendith arnoch i gyd.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Mae'r Grawys yn adeg dda i ofyn cwestiynau a chael oedfaon i'n harwain i'r Pasg. Mawr yw ein braint. Ond yn aml y mae holi cwestiynau yn fy mhrofiad i yn arwain at fwy o holi. Daeth Nicodemus, arweinydd cydwybodol yn ei ddydd, athro'r bobl, ceisiwr arwyddion Duw, at yr Iesu gyda chwestiwn. Rhoddodd ein Gwaredwr ateb iddo: Rhaid iddo gael ei eni o'r newydd. Ond ni ddeallodd. Daeth yn ôl drachefn. Dyna oedd yn dyheu am ateb fel yr ydym yn yr oes hon. Cyflwynodd Nicodemus ei gwestiwn, a chafodd ateb iddo. Rhaid iddo dystiolaethau am fywyd, marwolaeth a bywyd newydd Mab y Dyn, ac fel Nicodemus, yr ydym ninnau yn ei chael hi'n anodd deall a dyna bwrpas y seiadau a gynhelir gan ein Gweinidog ar y *zoom* i'r ofalaeth gyfan. Ac fel Nicodemus, yr ydym ninnau yn ein hoedfaon yn dyheu am ddeall yn well fel y medrwn gredu ym muddugoliaeth y Pasg eleni eto. Deall i ddeall, credu wedyn, a gwyrth yr achubiaeth i ddilyn, dyna'r chwyldro sydd yn hanes y ffydd Gristnogol.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Wedi misoedd heb gyfarfod arferol, braf iawn oedd ail gysylltu â'n gilydd mewn dau gyfarfod anffurfiol ym misoedd Tachwedd 2021 a Chwefror 2022. Diolchwn i'r pwyllgor am drefnu prynhawniau cyfeillgar gyda sgwrs a phaned. Daeth dros ugain ohonom ynghyd am amser hyfryd o rannu newyddion, cwynion ac atgofion gydag ambell i ddeigryn wrth gofio'r rhai a gollwyd dros y misoedd, Terry O'Neill, Gwenda Hughes ac Elwyn Thomas. Cyfeillion annwyl ac aelodau ffyddlon o'r gymdeithas.

Mae'r pwyllgor wedi trefnu i ni gyfarfod yn fisol hyd at yr haf pryd bydd cyfle i ddathlu ein penblwydd fel Cymdeithas yn dri ugain mlwydd oed, sef carreg filltir bwysig dros ben.

Cyn hynny, edrychwn ymlaen at ein Cinio Gŵyl Ddewi ar Fawrth 4ydd yng ngwesty Clwb Golff Prenton – cam go fawr at ail ymafael mewn gweithgareddau normal unwaith yn rhagor.

*O.N. Diolch Dr. Ben am bob cymorth a chefnogaeth i'n Cymdeithas ar hyd y blynyddoedd. Dymunwn iechyd a hapusrwydd i chwi a Meinwen ar eich ymddeoliad – yn ymddangos yn brysurach ag erioed!! (Eirwen)*

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Braf yw cael dychwelyd i'r Capel a chafwyd Cyfarfod Blynyddol ar fore Sul olaf ym mis Chwefror yn ôl gofynion Comisiwn yr Elusennau. Bu'r defosiwn yng ngofal Mrs Nan Hughes Parry a W. Meirion Evans a chyflwynwyd adroddiad manwl gan y Dr. Pat Williams, Dr. John G. Williams a W. Meirion Evans, yn crynhoi'r gweithgareddau dwy flynedd 2019-21, ac yn edrych ar yr adroddiadau ariannol a hefyd cyflwr yr adeiladau.

Bu hi yn gyfnod newid dwylo a chofiwyd am bob agwedd o'r dystiolaeth. Braf oedd cael crynodeb i'r cyfan ar sgrin *zoom* a mawr yw ein gwerthfawrogiad i'r blaenoriaid, organyddion, ein cyn-weinidog, a'n gweinidog presennol a fu yn brysur dros Gŵyl Ddewi yn y myfyrdodau.

Bu dyfodiad Mr. R. Ifor Griffith yn ôl i'n plith ar ôl ei ddamwain yn hwb i'n caniadaeth sydd yn ddisgybledig pan y mae ef yn ei sedd. Cydymdeimlwn gyda Mrs Elan Jones, Mimosa, Mossley Hill yn y brofediaeth lem o golli ei brawd, Pennant Roberts, yn Nyffryn Chubut. Cofia lawer ohonom am ei ymweliad ef â ni yn 1981. Daeth ei briod ag yntau atom, a llawenydd mawr iddo oedd cael sgwrsio yn Gymraeg yng ngorsaf heddlu Wavertree â'r Rhingyll John P. Lyons a'r Rhingyll William Owen, y ddau wedi ymddeol i Ynys Môn. Bu Pennant Roberts yn cario cyfrifoldeb mawr ym myd yr heddlu yn y Wladfa. Byddwn yn croesawu y Gweinidog cyntaf o'r hen wlad ym mis Mawrth pan ddaw y Parchedig R. Glyn Jones, Llanrwst atom i Bethel a Seion ar yr ail Sul ym mis Mawrth.

# CORNEL Y TRYSORYDD



**Ebrill 2022**

| | |
|---|---|
| Mrs Elizabeth Owen, Halewood | £20.00 |
| Mrs Gwenda Roberts, Bae Colwyn | £25.00 |
| Mr Gwynn a Basia Evans, Llundain | £25.00 |
| Mr Ben Hughes, Lerpwl | £20.00 |
| Miss Hilda Lloyd, Rainhill | £25.00 |
| Rhodd Cronfa Eglwys Dewi Sant Lerpwl | £600.00 |
| Mrs Beryl Jones, Rainhill | £15.00 |
| **Cyfanswm** | **£730.00** |

**Diolch**
**Roderick Owen (Trysorydd)**

CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn LL23 7UH 07729 960484 aerontynycefn@gmail.com*

## *SEFYDLU PARCH. ROBERT PARRY YN LLYWYDD YR HENADURIAETH*



Nos Fercher, Chwefror 16eg sefydlwyd y Parchedig Robert Parry, Gweinidog Gofalaeth Gororau'r Gogledd, yn Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain am ddwy flynedd. Cynhaliwyd y cyfarfod fel un cymysgryw (hybrid) lle 'roedd detholedigion yn bresennol yng Nghapel y Groes, Wrecsam a'r gweddill yn eu cartrefi yn ymuno trwy *Zoom*. Talodd y Llywydd newydd ddiolch cynhwysfawr i'w ragflaenydd, Mrs. Marian Lloyd Jones, am ei holl waith yn ystod y ddwy flynedd flaenorol a oedd wedi bod yn gyfnod heriol i ddweud y lleiaf! Pob bendith i'r Llywydd yn ei ymdrechion i fugeilio ac ysbrydoli ni i gyd.

***John Williams***

**CYMDEITHAS LENYDDOL BETHEL A DOSBARTHIADAU Y DYSGWYR**

---

**Nos Lun, 11 Ebrill**
**ar zoom.**
***DARLITH AR DDAU PROTESATANT EITHAFOL***
(George Wise a H. D. Longbottom)
am 7.30 o'r gloch.
I lywyddu: Parch. Robert Parry.
I draddodi'r ddarlith:
Parch. Ddr. D. Ben Rees.

***Rhaghysbysiadau:***
Mehefin

**Gŵyl Etifeddiaeth**
**ar Sadwrn, 10 Mehefin**
**a Sul, 11 Mehefin.**
Bwriedir cynnal Cyngerdd o ddoniau lleol
ar Nos Sadwrn, 10 Mehefin
am 7.30
yng nghapel Elm Hall Drive.

Cadwch hwy yn eich dyddiaduron

---

# CYFARFOD CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

***CHWEFROR 8fed 2022***

Nos Fawrth, Chwefror 8fed, cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Cymry Lerpwl. Oherwydd pandemig y Coronafirws hwn oedd y cyfarfod cyntaf ers Mawrth 10fed, 2020. Cynhaliwyd y cyfarfod yma i drafod a threfnu rhaglen o gyfarfodydd cyn y Pasg.

Llywyddwyd y cyfarfod i ddechrau gan Roderick Owen. Croesawodd pawb yn ôl a diolchodd i Meirion Evans , Idris Roberts a John Williams am eu gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r adeiladau a chadw cysylltiad gyda phawb.

Roedd Norma ac yntau wedi penderfynu yn ystod y Cyfnod Clo eu bod am roi y gorau i fod yn Llywydd ac Ysgrifennydd y Gymdeithas wedi degawdau o wasanaeth.

Cynigodd Roderick, Dr John a Beryl Williams fel y Llywydd ac Ysgrifennydd newydd os nad oedd enwau eraill. Rhoddodd y gynulleidfa eu cefnogaeth am y cynigiad yn unfrydol. Fe drosglwyddodd Roderick yr awenau i John.

Wrth dderbyn y swydd diolchodd y Llywydd newydd i Roderick a Norma am eu gwaith dros y blynyddoedd. Fe ddywedodd hefyd mae ei weithred gyntaf fel Llywydd oedd hysbysu y bydd y Gymdeithas yn trefnu cinio arbennig ym mis Mai neu Fehefin i ddangos ei gwerthfawrogiad i Roderick a Norma.

Roedd y Trysorydd yn cynnig peidio a chodi tâl aelodaeth am y cyfnod o Fawrth i ddiwedd Ebrill.

Wedi trafodaeth penderfynwyd cyfarfod bob yn ail wythnos am weddill y tymor gan ddechrau ar ddydd Gŵyl Ddewi a gorffen gyda'r Cyfarfod Cyffredinol ar Ebrill 26ain.

Dyma'r rhaglen a drefnwyd gan y Llywydd ac Ysgrifennydd

| | |
|---|---|
| **Mawrth 1af –** | Dathlu Gŵyl Ddewi a Dydd Mawrth Ynyd |
| **Mawrth 15fed** | Cwis o dan ofal Devida Broadbent |
| **Mawrth 29ain** | Saunders Lewis a 'Tynged yr iaith' - Parch. D. Ben Rees |
| **Ebrill 12fed** | 'Mae yn fy meddiant'. I gymeryd rhan – Mrs. Hilda Thomas, Mrs. Eryl Chitty, Mrs. Nan Hughes Parry, Mr. Roderick Owen a'r Llywydd |
| **Ebrill 26ain** | Cyfarfod Cyffredinol |

**Darn o Hunangofiant**

# MYND I'R PICTIWRS

***gan Edward Brian Thomas***

***Pennod 4***



*Edward Brian Thomas*

Wrth benderfynu mynd i'r pictiwrs y dyddiau yma, 'does rhaid ddim ond gwisgo yn drwsiadus a mynd i lawr y ffordd, talu am diced i weld cystadleuaeth o wahanol destunau, prynu 'popcorn' neu finciac, a mynd ac eistedd i lawr, a gwylied y llun o'r dechreu i'r diwedd. Dyna sut yr oedd hi yn y gorffennol? O! nace, roedd mynd i'r pictiwrs ers talwm yn gallu bod yn antur ynddo'i hun!

Y pictiwrs cyntaf 'rwy'n ei gofio oedd yn y festri yng nghyfaffod 'Band of Hope' ac yn cael sioe o weld 'Magic Lantern'. Hudolus oedd cael diffodd y golau a gweld lluniau lliw o ddigwyddiadau o'r Beibl. Gweld llun o Abraham, neu llun o Dafydd yn lladd Goliath a sŵn twrw trwm wrth newid pob llun. Mynd adref wedi gweld rhyfeddodau.

Wedyn mae gennyf gof cryf o fynd gydam Mam a'm chwaer i Lanrwst i'r Tŷ Pictiwrs yn y fan honno i weld film o'r enw 'Bambi'; rhyfeddod gwylied hanes mewn lliw o fywyd ac anturiaethau carw bach. Dyma wedyn greu chwant am fynd i weld ychwaneg o ffilmiau oedd yn gallu ysbrydoli rhywun i fwynhau dychymyg. Deuai gweld y ffilmiau yn gyfle i ni allu drwy chwarae, droi ein hunain yn gowboi neu yn Sheriff, neu yn soldiwrs neu'n Indians. Cawsom ein symbylu i fod yn rhan o fyd Hollywood ar strydoedd neu gaeau Penmachno. Gallai awr neu ddwy o chwarae Cowboys ac Indians fod yn bleser pur.

Y cof nesaf sydd gennyf wrth gofio'n ôl, oedd teithio i Betws y Coed i'r *Memorial Hall*, lle 'roeddynt yn cynnal ffilmiau bob Nos Fawrth . Byddem yn gwneud trefniadau â'n gilydd, yn griw o hogiau, i fynd yno, pan fyddai ffilm oedd yn ein bodloni yn cael ei ddangos. Y rhan fwyaf o'r amser byddai yno ffilm 'Western' a byddai Alan Ladd neu John Wayne yn rhan o'r dynfa. 'Doedd y *Memorial Hall* ddim y lle cysuraf i fynd iddo i eistedd am awr neu ddwy. 'Doedd ganddynt ddim seti cysurus i eistedd arnynt, cadeiriau ddigon caled oedd yno, a'r lle yn llawn o blant yn creu stwr a thwrw. Nid oedd hi'n hawdd clywed beth oedd yr actorion yn ei ddweud bob amser, a byddai rhai o'r 'gynulleidfa' yn mynd yn rhan o'r llun, ac yn gweiddi allan, fod yn rhaid cuddio neu i fod yn wyliadwrus o rhywbeth oedd yn mynd i ddigwydd. Yn aml, bron bob tro, byddai y ffilm yn torri a'r ystafell yn mynd yn dywyllwch pur. Byddai wedyn weiddi mawr, o siom, ac byddai rhai o'r genethod yn sgrechian ac yn gweiddi o ofn, neu rhywbeth neu rhywun wedi ymyrryd â hwy. Byddai hynny yn digwydd nes y deuai y llun yn ôl. Gallai hynny ddigwydd ddwywaith neu dair gwaith y noson.

'Roedd mynd i'r pictiwrs yn Betws y Coed yn antur ynddi ei hun. Un o'r hogiau a fyddai'n dod gyda ni oedd bachgen o'r enw Geoffrey Gorry, a byddai weithiau yn cael ffit, ac yn llewygu. 'Roeddem wedi hen arfer â fo yn cael ffit, a byddem yn disgwyl iddo ddod drosti. Roedd hynny yn digwydd mewn ychydig funudau fel arfer. Ond 'roedd hefyd wedi dysgu ffugio ffit, ac 'roedd yn gallu defnyddio y ffit er ei fwyn ef ei hun. Cofio unwaith, yn dod allan o'r *Memorial Hall* ar ôl un film, ac yntau'n dweud nad oedd ganddo ddigon o bres i dalu y ffêr bws i fynd adre'n ôl. Aethom dros bont Pont y Pair a throi i'r chwith i fynd am y stesion i fynd adref ac yn sydyn, o flaen Garej Knowles, dyma Geoffrey yn disgyn ar ei ochr, a dechreu crynu yn ddistop. Daeth dynion allan o'r Garej, gan ddechreu gweinyddu arno ac edrych beth a allent wneud i adfer y bachgen druan. Wedi iddo ddod ychydig ato ei hun, symudwyd ef oddiar y ffordd i mewn i'r garej. Cafodd Geoffrey wedyn ei gludo mewn un o geir y garej adref yn ddiogel i Benmachno. 'Roedd wedi ffugio ffit am nad oedd ganddo bres i fynd ar y bws!!



*'Memorial Hall' Betws y Coed*

Tro arall roedd Alec a minnau wedi trefnu i fynd i Betws i weld ffilm, ac yn mynd i lawr ar y bws. 'Roeddem erbyn hyn tua pymtheng oed. Ar y bws 'roedd dwy ferch siriol, tua'r un oed a ni, ac yn siarad Saesneg. Wrth siarad â hwy, cawsom ar ddeall eu bod hwythau yn mynd i'r pictiwrs. 'Roeddem wedi clicio mewn dim, a dros ein pen a'n clustiau mewn cariad. Ar ôl dod allan, aethom am dro i fyny'r Afon Llugwy. Erbyn cyrraedd y stesion i ddal y Bws, cawsom ar ddallt fod y bws wedi mynd, bws ddiweddaf y noson. 'Doedd dim i'w wneud ond dechreu cerdded. 'Roedd y ddwy ar ei gwyliau gyda'u rhieni yng Nghwm Penmachno, ac yn dod o dref Manceinion, ac yn aros yn Cwm am bythefnos. Mae pum milltir o Fetws i Benmachno, a thair milltir wedyn i gyrraedd y Cwm. Fel y galloch feddwl cymerodd amser hir inni gerdded yr holl daith ac yr oedd wedi nosi ac yn tynnu am tua unarddeg erbyn i gar un o dadau y merched ddod ar ein traws ar y ffordd rhwng Penmachno a Cwm. 'Roedd wedi cynhyrfu yn fawr ac ar ôl ein melltithio, a thaflu y ddwy ferch i gefn y car, gadawodd ni ein dau ar y ffordd i gerdded yn ôl adref.

Roedd un o'r merched a minnau wedi cyfnewid cyfeiriad, ac wedi addo ysgrifennu at ein gilydd. Ychydig amser wedyn cefais lythyr ganddi yn egluro fod eu rhieni wedi dychryn cymaint, bod wedi pacio pob dim ac wedi mynd yn ôl i Manceinion y noson honno, ac na fyddant byth yn dod yn ôl i 'Wales'. A hefyd

dywedodd fod ei Mam yn dweud na fyddai byth yn cael cysylltu â mi wedyn. Diwedd y noson rhanamtus a blin i bictiwrs ym Metws y Coed.

Ar ôl cyrraedd oedran hŷn, yr arfer wedyn, os byddai ffilm arbennig, oedd cael tacsi Ifan Owen, a mynd i Llanrwst, lle' roedd sinema moethus y *Luxor*. 'Roedd hwn wedi ei adeiladu yn bwrpasol i ddangos ffilmiau go iawn. 'Roedd y seti yn feddal ac yn ein sugno i eistedd yn gysurus. Ac hefyd 'roedd yno falconi ychydig yn uwch na'r llawr, hwnnw yn costio mwy; a hefyd 'roedd yno seti ôl oedd yn eistedd dau yn ddiwahân, yn arbennig i gariadon. Byddai tacsi Ifan Owen yn drwyddedig i gario pedwar, ond byddai yn cario saith neu wyth yn aml. Byddai'n mynd bob Nos Fawrth a Nos Iau, achos byddai y *Luxor* yn dangos tri ffilm gwahanol bob wythnos. 'Rwyf yn cofio unwaith i fy mrawd gyrraedd adref rhyw noson ac yn dweud fod drws ôl y tacsi wedi disgyn i ffwrdd ar ffordd Llanrwst, a'u bod wedi cyrraedd adref yn dal y drws ar eu gliniau.

Weithiau byddai fy Mam yn mynd i weld ei chyfnither yng Nghaernarfon, a byddwn innau yn mynd gyda hi. Tra byddai hi ac Anti Jinni yn rhoi y byd yn ei le, byddwn yn rheolaidd yn mynd i'r pictiwrs. Byddwn yn mynd fel arfer i weld beth bynnag fyddai yn cael ei ddangos, i'r *'Majestic Cinema'*, llundŷ crand moethus arall wedi ei adeiladu yn bwrpasol er mwyn dangos y ffilmiau gorau. Talu swllt, i eistedd mewn sêt gyfforddus plwsh, ac hufen-iâ ar gael, pan glywem y geiriau '*There will now be a short intermisssion'* yn ymddangos ar y sgrîn. Ond, unwaith, am ryw reswm nas cofiaf, bu'n ofynnol mynd i'r Guild Hall, yng nghanol y dref. Rhoi swllt i'r ddynes hel pres, a chael naw ceiniog o newid, a'm dangos y ffordd i'r balconi i fyny'r grisiau. Eistedd i lawr ar un o'r seti gwag, a chael fy hun mewn gwallgofdŷ. 'Roedd y lle yn llawn dop o'r plant mwyaf swnllyd fum i erioed yn eu canol hwy. Ffilm 'Tarzan' oedd yn cael ei ddangos, ond chlywais i yr un gair oedd yn cael ei yngan ar y sgrîn. 'Roedd y twrw a'r gweiddi yn ddibaid a'r genod yn sgrechian ar eu gilydd am rywbeth bob munud. Dyna'r tro cyntaf, a'r tro diweddaf imi gael dweud fy mod wedi bod yn un o'r *'Silent Movies'*. Euthum allan cyn ddiwedd y noson, gan fy mod ar fy mhen fy hun, a dim llai nac ychydig o ofn arnaf. Ar ôl hynny o brofiad 'roeddwn yn falch o dalu swllt am foethusrwydd y *Majestic*. 'Rwyf hefyd yn cofio, pan yn ymuno â'r Llu Awyr i gyflawni fy nwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol, cael ffilm i ddangos erchyllterau cyfathrach rhy agos a merched y nos, ond gwell peidio a sôn am fanylion felly yn fy atgofion.

Heddiw, gallwn gael cannoedd ar gannoedd o ffilmiau ar y teledu heb symud cam o'r tŷ. Fel y mae byd yn newid ac yn newid o hyd o'n cwmpas yn ddyddiol. Ond gwell gennyf fi oedd mynd yng nhacsi Ifan Owen, er fod fy mywyd yn y fantol, i Luxor yn Llanrwst na diddosrwydd dyddiau gwahanol! Pob un at y peth a bo yw'r hen air. Gwir hynny.



*'Luxor' Llanrwst*


## GWAHODDIAD ARBENNIG

Cyfrol arbennig ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2022

***CYFLWYNO TREGARON A'R CYFFINIAU DDOE A HEDDIW***

Gwahoddiad i chwi ffrindiau i ymateb erbyn **10 Mai 2022** i'r cyfle o gael copi clawr caled, neu gopi clawr meddal, O'r gyfrol yn cyflwyno Tregaron a'r pentrefi o gwmpas (Llanddewi Brefi, Llanfair Clydogau, Cellan, Llangybi, Llanio, Llangeithio, Bwlch-llan, Abermeurig, Penuwch, Blaenpennal, Blaenafon, Mynydd Bach, Berth, Bronant, Lledrod, Llanilar, Swyddffynnon, Caradog, Pontrhydfendigaid, Ffair Rhos, Ysbyty Ystwyth, Pontrhydygroes, Cwmystwyth) i bobl leol a phobl a ddaw i'r Eisteddfod a hefyd caredigion ein diwylliant. Yr awdur yw un o blant y fro, y Parchedig Ddr D. Ben Rees (brodor o Landdewi Brefi).

Gwahoddir chwi i gyfrannu £50.00 i dderbyn copi clawr caled o'r gyfrol unigryw hon; neu £30.00 ar gyfer derbyn copi clawr meddal. A wnewch chwi nodi eich dymuniad am y gyfrol gan y caiff ei llofnodi a'i chyflwyno mewn seremoni arbennig yn Siop Rhiannon, Tregaron. Mi fydd eich enw yn cael ei nodi yn rhestr y Tanysgrifwyr. Bydd hi'n gyfrol hardd o Wasg Y Lolfa.

Gyda diolch a chymeradwyaeth yr awdur D. Ben Rees
garthdriveben.@gmail.com

## Ymateb

Enw . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**A.** Archeb am y Gyfrol Clawr Caled
Nifer ..........
Rhodd o £ ...............

**B.** Archeb am y Gyfrol Clawr Meddal
Nifer ..........
Rhodd o £ ...............

Anfoner y swm priodol trwy siec, neu arian rhydd, mor fuan ag y bo modd i:-

Dr D. Ben Rees
32 Garth Drive,
Allerton,
Liverpool/Lerpwl,
L18 6HW.

*Cyflwyno*

# GERWYN WILLIAMS

**gan Dr. Pat Williams**

Mae beirdd Lloegr a ysgrifennai am eu profiadau yn y Rhyfel Byd Cyntaf wedi sicrhau lle i 'farddoniaeth ryfel' fel *genre* llenyddol, ond yng Nghymru, er bod ein barddoniaeth gynharaf yn ymwneud â brwydro, Gerwyn Williams, yw'r ysgolhaig cyntaf i wneud astudiaeth academaidd o farddoniaeth ryfel Gymraeg.

Mae ffrwyth ei ymchwil i'w weld mewn dwy gyfrol: *Y Rhwyg: Arolwg o Farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (1996) a *Tir Neb: Rhyddiaith Gymraeg a'r Rhyfel Byd Cyntaf,* a ddyfarnwyd yn Llyfr y Flwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 1997. Ond nid dyna ddiwedd ei ymchwil i lenyddiaith rhyfel ac yn 2005 cyhoeddodd *Tir Newydd: Agweddau ar Lenyddiaeth Gymraeg a'r Ail Ryfel Byd*; a'i ddilyn y flwyddyn nesaf gyda'i erthygl, 'Cofio Rhyfel Anghofiedig: Dehongli a Chyd-destunoli Rhyfel y Falklands/Malvinas 1982' a gyhoeddwyd yn *Cof Cenedl XXI*. Eglura'r awdur ei fod wedi dewis y tetil Tir Newydd oherwydd dyna oedd teitl cylchgrawn llenyddol arloesol a olygwyd gan Alun Llywelyn Williams rhwng 1935 a 1939 a chredai fod Alun Llywelyn Williams yn anad neb arall wedi rhyngwladoli perspectif barddoniaeth Gymraeg, sydd yn bwysig wrth drafod llenyddiaeth yr Ail Ryfel Byd. Yn y gyfrol hon mae Gerwyn Williams yn trafod gwaith llenorion o filwyr a gofnododd eu profiadau ar y pryd a rhai eraill, yn feirdd, nofelwyr a dramodwyr, nad oedd wedi cael profiad uniongyrchol o ryfel ond a fynegodd eu gwrthwynebiad i ddefnyddio dulliau treisgar i geisio datrys problemau politicaidd. Wrth drafod atgofion pobl am ryfel dywed Gerwyn Williams fod gwahaniaethau cynnil rhwng yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd a'r hyn a gofir a'i gofnodi. Dywed hefyd fod iaith yn aml yn annigonol i ddisgrifio'r erchyllterau a ddigwyddodd, barn a ategir gan Gwyn Thomas yn y gerdd 'Pa fodd' sydd yn y gyfrol *Am Ryw Hyd* (t. 57):


*Pa fodd, heb fwgwd dros deimladau –*
*Eironi neu gymryd arnom –*
*Y mae llefaru geiriau a dywedyd*
*Am y tywyllwch sydd ynom ...?'*


Yn ogystal â bod yn ysgolhaig, mae Gerwyn Williams yn fardd. Derbyniodd brif wobr lenyddol Eisteddfod yr Urdd yn 1983 a 1984, ac yn 1994 cipiodd y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda'i bryddest 'Dolenni', lle y trafodir Rhyfel Fietnam, Rhyfel y Gwlff a'r frwydr yn Bosnia a Serbia. Cyhoeddodd hefyd bedair cyfrol arall o gerddi: *Rhwng y Cŵn a'r Brain* (1988), *Cydio'n Dynn* (1998), *Tafarn Tawelwch* (2003) a *Rhwng Gwibdaith a Coldplay* a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn yn yr adran farddoniaeth yn 2011. Mae'r teitl gogleisiol hwn yn cyfeirio at ddau grŵp pop enwog, y naill o Gymru a'r llall o Loegr, ac y mae'r bardd yn eu defnyddio'n drosiadol i gyfeirio at fywydau plant yn eu harddegau, 'rhwng y cellwair cartrefol a thynfa'r draffordd fawr' ac yn gofyn y cwestiwn rhethregol a ydynt yn 'ymbalfalu am gyweirnod' neu 'am fwlch yn y clawdd' a fydd yn eu harwain 'yn daclus dwt i'[w] hyfory.' (t. 15) O ddarllen rhwng y llinellau gellid synhwyro mynegiant o bryder rhieni am ddyfodol eu plant a gwelir yr un chwithdod o golli diniweidrwydd plentyn yn y gerdd 'Nadolig Teirblwydd' a 'Clirio'r Llwyfan'. Serch hynny, nid yn unig am fore oes ei blant y mae'n hiraethu ond am ei ieuenctid ei hun fel myfyriwr delfrydgar yn Aberystwyth yn rhoi'r byd yn ei le dros beint yn nhafarn y Cŵps, 'yn lle tin-droi'n ddigyfeiriad / yng nghlydwch ein lolfeydd di-fwg.' (t. 21) Serch hynny, fe all fod ystyr ddeuol i 'Gwibdaith' a'i fod yn cyfeirio nid yn unig at y grŵp, Gwibdaith Hen Frân, ond hefyd at y teithiau y mae ef ei hun wedi eu gwneud dros y blynyddoedd yng Nghymru a thu draw, gan ddatgan ei argraffiadau. Mynegodd ei anesmwythyd wrth weld pobl yn cardota yng nghanol cyfoeth Grafton Street, Dulyn (t. 70) ac mewn iaith gynnil awgrymog mynegodd ei anniddigrwydd o gofio am y bobl oedd wedi cael eu gyrru i mewn i Belsen (t. 18) a'r rhai oedd wedi eu gyrru allan o Dryweryn. (t. 45)

Ond y gyfrol sydd wedi cael y derbyniad mwyaf brwdfrydedig gan ei ddarllenwyr yw *Cofio Cynan*. A gellir deall paham. Mae'n cyfuno astudiaeth ysgolheigaidd o'i waith a phortread gonest o'r bardd enwog a enynnodd atgasedd yn ogystal ag edmygedd yr un pryd. Mae'n gyfrol ag apêl eang, a fydd yn ychwanegiad amrhisiadwy at lyfrgell unrhyw un.



*Gerwyn Williams*




*Rhai o lyfrau gan Gerwyn Williams*

# MANCEINION DDOE A HEDDIW

## Capel Willow Tree Road, Altrincham (3)

**gan y Parchedig Eleri Edwards**

Cofnododd Lois hefyd y rhaglen 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' a ddarlledwyd yn 2003 o gapel bach Altrincham ac a enillodd glod mawr o Gymru wedi i bobl glywed a gweld y canu ysbrydoledig a ddaeth o du draw i Glawdd Offa.




*Criw S4C o flaen y capel gyda Iestyn Roberts swyddog gweithgar yn y capel*

Yn ei hadroddiad dywedodd Lois: "Mae'r Henaduriaeth yn un gymdogol gyda phedair eglwys (*yn 2003, cofiwch mae pethau wedi newid, erbyn 2022, dwy eglwys sydd ar ôl*) lle mae y Sul ac addoli yn holl bwysig i'r mwyafrif o'r aelodau a phob aelod yn cyd-weithio er lles ac adeiladaeth ei gilydd. Yn flynyddol cynhelir: cyfarfodydd Pregethu, Cymun y Groglith, Pregeth Gŵyl Dewi Sant, Cyfarfod Dydd Gwener Gweddi Chwiorydd y Byd, Cymanfa Ganu, Gwasanaeth Carolau Nadolig, Rali Genhadol, Rali Cymdeithas y Beibl, ac Eisteddfod. Yn ychwanegol mae cyfarfodydd Llên a Chân yn eglwysi Altrincham ac Oaker Avenue a'r gyfeillach yn Monton (capel Noddfa). Mae'r eglwysi yn cydweithio ym mudiadau eciwmenaidd Saesneg yn y ddinas...'


Canmlwyddiant y capel yn 2003 cafwyd dathliad rhagorol i gofio'r hanes a gweddïo dros bawb oedd wedi bod ynglŷn a'r capel bach.

Yn Altrincham, parhaodd y gymdeithas Lên a Chân dros y blynyddoedd tan yn ddiweddar iawn pan ymunodd y gymdeithasau i greu un ym Manceinion ac roedd dychymyg rhyfeddol y pwyllgorau, a welir yn y rhaglen, yn parhau hyd heddiw; hefyd gwelais barodrwydd bendigedig yr aelodau i gymryd rhan a bod ar y pwyllgor.. Edmygais y cofnodion trefnus a theimlais y bywyd wrth eu darllen – a dychmygais lawenydd yr aelodau yn y cyfarfodydd, y tripiau a'r gweithgareddau cyffrous i hel arian at y capel. Mae'r lluniau niferus sydd gan y capel yn gymorth i ni weld a mwynhau'r bwrlwm hyd heddiw!



*Parch Huw a Mrs Mair Gwynfa Roberts – 1982*

Mae bywyd capel mewn dinas fawr, yn arbennig dros y ffin, yn gweld llawer o newid am fod y to ifanc yn symud i ffwrdd, unrhyw myfyrwyr yn creu cynulleidfa dros dro, a galw gweinidogion mor bell o'r Hen wlad yn anodd! Gyda lli y blynyddoedd, mae'r ffyddloniaid yn heneiddio a rhai bobl yn symud yn ôl i Gymru; eraill yn gorfod symud yn agosach at deulu mewn llefydd eraill. Ond diolchwn i Dduw am dystiolaeth capeli fel Willow Tree Road ac am ddycnwch eu haelodau, ac am bob gweinidog a ddaeth i gyd-weithio a cafodd eu gwerthfawrogi gymaint gan y gynulleidfaoedd. Mae Achos Altrincham heddiw o dan ofal y Parchedig Robert Parry fel rhan o ofalaeth Gororau'r Gogledd. Ie diolch am hanes bywyd cyfoethog a bendigedig capeli Cymraeg yma ac ym mhob man. Diolch hefyd am y am bobl ffyddlon a oedd yn caru Iesu Grist ac yn cofio eu gwreiddiau yng Nghymru ac yn gweithio er clod a mawl i Dduw.



*Parchedigion W. R. Williams [gweinidog y capel] a Meirion Lloyd Davies [Llywydd y Gymanfa ar y pryd] a Dr W. H. Roberts, Blaenor y capel.*



*Dathlu Cinio Gŵyl Ddewi yn y festri yn 2010 ac wedyn cwis a canu a straeon gan yr aelodau talentog.*

# NEB I FEIDDIO GRWGNACH

Bûm yn Abererch y dydd o'r blaen. Fel llawer pentref arall o'i faint yng nghefn gwlad mae Abererch wedi colli llawer yn y blynyddoedd diweddar yma. Mae gorsaf y rheilffordd gryn bellter o'r pentref.

Ond mae yno eglwys, Mae honno wedi ei chysegru i Gawrdaf Sant ac mae hi'n hen a diddorol. Cofiais fod y bardd Robert ap Gwilym Ddu wedi ei gladdu yn y fynwent ac i ffwrdd a mi i chwilio am y bedd. Bûm yn chwilio am rai munudau ond heb lwyddiant pan ddaeth cenllif o law ar fy mhen a bu'n rhaid i mi roi'r gorau iddi.

Roedd Robert ap Gwilym Ddu, neu Robert Williams a rhoi iddo ei enw bedydd, yn un o feirdd medrusaf ei oes. Ganwyd efyn 1767 a bu'n ffermio yn y Betws Fawr gerllaw afon Dwyfach yn Eifionydd. Ymddengys ei fod yn amaethwr llwyddiannus ac eithaf cefnog. Bu yn hen lanc nes cyrraedd 50 oed ac yna priododd ferch ifanc a oedd yn forwyn yn un o'r plastai lleol. Bu iddynt un plentyn, sef Jane Elizabeth.

Tybiodd Robert ap Gwilym Ddu ei fod wedi cael cam mewn eisteddfod yn gynnar yn ei yrfa a rhoddodd y gorau i gystadlu. I ni heddiw mae'n debyg fod hyn yn ennill mawr. Arbedodd y bardd rhag cyfansoddi awdlau hirfaith catalogaidd i geisio ennill cadeiriau; pethau hollol ddieneiniad a diwerth i ni bellach [hynny yw'r awdlau ac nid o angenrheidrwydd y cadeiriau]. Rhoddodd ryddid iddo ganu o'r galon ac felly mae gennym englynion gwych a rhai o emynau praffaf Cymru wedi dod o'r Betws Fawr.

Mae llawer o'i ganu'n ddigon pruddglwyfus a dweud y gwir. Collodd ei unig ferch yn ieuanc a byddai byth a beunydd yn cwyno bod rhyw afiechyd neu'i gilydd arno. Pan oedd yn 60 oed, cwynai ei fod yn paratoi am y bedd ac meddai, 'A'm nos hir yn ymnesáu'. Wel y gwir yw ei fod wedi byw sbel dros y pedwar ugain – oed da iawn i'r cyfnod a'r gair yn Eifionydd yw ei fod yn dipyn o heipocondriac. Roedd o'n byw ychydig cyn oes y camera ac felly does dim llun ohono ar gael, ond mae un olew ohono yn yr Amgueddfa Genedlaethol wedi ei beintio yn 1845 pan oedd yn 78 oed. Yn ôl y llun yma mae o'n edrych yn hen fachgen iach i'w ryfeddu.

Efatlai ei fod o bryd i'w gilydd yn cywilyddio oherwydd y digalondid yma gan ein bod yn clywed sain gobaith yn ei emynau. Maen nhw'n gryf eu neges ac yn ddefosiynol. Un ohonyn nhw yw'r emyn sy'n llawn cysur:

*Pa fodd y meiddiaf yn fy oes*
*Dristau na grwgnach dan y groes,*
*A minnau'n gwybod am y fraint*
*Mai'r groeso yw coron pawb o'r saint.*

Mae'r bardd yn ei geryddu ei hun. Fe ŵyr na ddylai fod yn cwyno, oherwydd os yw yn dioddef, ei fraint ef yw hynny ac fe ddioddefodd Crist fwy o lawer trosom.

A dyma'r pennill olaf:

*O dan y groes ymlaen yr awn,*
*Dywedodd Ef mai'r groes a gawn:*
*Ond dyma gysur, f'enaid gwan,*
*Try'r groes yn goron yn y man.*

Mae'n resyn na chyrhaeddodd yr emyn *Ganeuon Ffydd*. Ond beth am y dôn?

Tôn Joseph Parry 'Moliant' sydd uwch ei phen yn y *Caniedydd* ond yn fy marn fach i y dôn sy'n gweddu i'r dim yw 'Ombersley'. Mae hi'n dôn dawel gyfoethog gyda rhyw sain obeithiol braf ynddi. Ei hawdur oedd William Henry Gladstone (1840 - 1891), mab i'r Prif Weinidog enwog W. H. Gladstone. Roedd William y mab yn talentog iawn. Bu'n AS am 20 mlynedd ac yn gyfansoddwr tonau ac anthemau. Yr oedd hefyd yn bêl-droediwr a chwaraeodd yn y gêm ryngwladol gyntaf rhwng Lloegr a'r Alban. Sais oedd ei dad ond roedd ei fam yn Gymraes o Benarlâg yn Sir Y Fflint. Er hynny dros yr Aban y chwaraeai gan fod ei daid o'r wlad honno. Tydi pethau fel yna ddim yn newid llawer efallai. A'r sgôr, 1-1 oedd hi ac yn ôl yr adroddiadau fe gafodd yr hen foi gêm go dda.

***J.B.W.***

**Cysylltwch â'r Angor:**
**garthdriveben@gmail.com**

## CYMRY LERPWL

Cymdeithas Cymry Lerpwl
ar Nos Fawrth 29 Mawrth yn y Ganolfan
Darlith ar
***TYNGED YR IAITH SAUNDERS LEWIS***
am 7.30
gan y Dr. D. Ben Rees

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mai 2022** – erbyn bore Gwener, 1 Ebrill, 2022 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Gwener.
- **Rhifyn Mehefin 2022 –** erbyn bore Llun, 2 Mai 2022, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Rhifyn Gorffennaf 2022** erbyn bore Mercher, 1 Mehefin 2022 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Cyfarfod Blynyddol pnawn Llun, 11 Gorffennaf am 1.30 o'r gloch yn y Ganolfan, Penny Lane**
- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/4/2022.**




Dwi'n siŵr ein bod ni gyd wedi clywed 'Sosban Fach' yn cael ei chanu, neu wedi ei chanu ein hunain. Mae wedi ei mabwysiadu gan Gymry ac yn cael ei chanu mewn ysgolion, neuaddau cyngerdd, digwyddiadau cerddoriaeth fyw eraill a gan ddilynwyr rygbi, yn enwedig rhai Llanelli neu'r Scarlets.

Ond ydy chwi erioed wedi ystyried gwreiddiau a chefndir yr hyn a gellir ei ddisgrifio fel cân nonsens.

Yn wreiddiol mae'r gân yn seiliedig ar eiriau a ysgrifennwyd gan Richard Davies (Mynyddog), yn 1873, fel rhan o'i gân 'Rheolau'r Aelwyd' a elwir hefyd 'Rhowch Broc I'r Tân'. Gwelir y geiriau canlynol yn y bedwerydd pennill

*Pan fyddo yr aelwyd yn oeri,*
*A'r anwyd yn dyfod i'r gwaed,*
*Pan fyddo y trwyn wedi rhewi,*
*A'r winrhew ar fysedd y traed,*
*Pan fo Catherine Anne wedi briwo,*
*A Dafydd y gwas ddim yn iach,*
*A'r babi yn nadu a chrio,*
*A'r gath wedi crafu John bach.*

Mae gwreiddiau'r gân, yr ydym yn gyfarwydd â hi heddiw, yn gysylltiedig â neuaddau a thafarndai Llanwrtyd, tref sba yng nghefn gwlad canolbarth Cymru a oedd wedi dod yn gyrchfan wyliau poblogaidd yn dilyn adeiladu'r rheilffyrdd, yn enwedig i weithwyr o'r de diwydiannol a oedd yn gwerthfawrogi'r aer glân, yr awyr agored a rhinweddau iachusol ei dwfr. Roedd Llanelli yn un o'r trefi diwydiannol hyn ac yn ganolfan gweithgynhyrchu metel a chafodd y llysenw 'Tinopolis', fel y cwmni cynhyrchu teledu presennol sydd wedi'i leoli yno.

Yn ôl y sôn fe'i canwyd gyntaf yn haf 1895 neu 1896 gyda dim ond y geiriau o gerdd Mynyddog, ymhelaethwyd arni gan Talog Williams, cyfrifydd o Ddowlais, a greodd rhan fwyaf o'r gân sydd gennym heddiw drwy addasu pennill Mynyddog ac ychwanegu bennill newydd a chytgan, gyda cherddoriaeth gan Parch. D.M. Davies.

*Mae bys Meri-Ann wedi brifo,*
*A Dafydd y gwas ddim yn iach.*
*Mae'r baban yn y crud yn crio,*
*A'r gath wedi sgramo Joni bach.*

*Sosban fach yn berwi ar y tân*
*Sosban fawr yn berwi ar y llawr,*
*A'r gath wedi sgramo Joni bach.*

*Mae bys Meri-Ann wedi gwella,*
*A Dafydd y gwas yn ei fedd;*
*Mae'r baban yn y crud wedi tyfu,*
*A'r gath wedi huno yn ei hedd.*

*Sosban fach yn berwi ar y tân…….*

Ychwanegwyd darn ychwanegol tua 1911 gan bersonau anhysbys yn cyfeirio at 'Dai Bach y Sowldiwr'.

*Dai bach y sowldiwr,*
*Dai bach y sowldiwr,*
*Dai bach y sowldiwr,*
*A gwt ei grys e mas.*

Mae hwn yn gyfeiriad rhyfedd yn gyd-destun y gân yma. Tybir ei fod yn gamgymeriad, o bosibl oherwydd bod y gair 'sodrwr' (solderer) wedi'i gam-glywed, a byddai hyn yn gwneud mwy o synnwyr o fewn y gan. Ychwanegwyd mwy o gyfeiriadau at Dai, ai crys, yn fwy diweddar yn y penillion canlynol.

*Shwd grys oedd ganddo?*
*Shwd grys oedd ganddo?*
*Shwd grys oedd ganddo?*
*Un wen â streipen las.*

*O hwp e mewn, Dai,*
*O hwp e mewn, Dai,*
*O hwp e mewn, Dai,*
*Mae'n gas ei weld o mas.*

Draw yn y Wladfa (Patagonia) maent wedi ychwanegu trydydd pennill ar ôl y ddau wreiddiol.

*Fe gladdwyd y gath mewn lle doniol,*
*Mewn bocs lle'r oedd Nain yn cadw'r startsh,*
*A dodwyd ei chorff mewn beddrod,*
*A'r band yn chwarae'r death-march.*

Allwn i ddim gorffen heb gyfeirio at Glwb Rygbi Llanelli a'u dwy fuddugoliaeth enwog. Hanner canrif yn ôl ar 31 Hydref 1972, yn un o ganlyniadau enwocaf hanes rygbi'r undeb, llwyddodd Llanelli (Y Scarlets) i guro Seland Newydd (Y Crysau Duon) 9–3 o flaen 20,000 o wylwyr ar Barc y Strade. Yna, ugain mlynedd yn ddiweddarach, fe wnaethon nhw guro pencampwyr y byd ar y pryd Awstralia 13-9. Arweiniodd hyn at ddau addasiad pellach, yn yr iaith fain.


*Who beat the All Blacks?*
*Who beat the All Blacks?*
*Who beat the All Blacks?*
*Well good old 'Sosban Fach'!*

*Who beat the Walla Wallabies?*
*Who beat the Walla Wallabies?*
*Who beat the Walla Wallabies?*
*Well good old 'Sosban Fach'!*

***David Williams (Karslake).***

**Cysylltwch â'r Angor:**
**garthdriveben@gmail.com**

# TARO POST AC E-BOST




*Annwyl Olygydd,*

Diddorol oedd darllen, yn rhifyn Chwefror o'r *Angor*, adolygiad Simon Brooks o gofiant Aneurin Bevan: '*Cawr O Gymro A Thad Y Gwasanaeth Iechyd*' gan D Ben Rees.

Roeddwn yn ffodus i dderbyn copi, wedi'i lofnodi, fel anrheg Nadolig gan fy ngwraig Pauline.

Mae Aneurin Bevan yn un o fy arwyr gwleidyddol ac rwy'n ei hedmygu'n fawr.

Rwy'n cytuno â'r geiriau a ysgrifennwyd gan Simon ac rwyf yn edrych ymlaen at ddarllen gwaith Ben.

Wrth i mi ei ddarllen byddaf yn gallu edrych i fyny, o bryd i'w gilydd, a chael gweld rhosyn 'Nye Bevan' sy'n tyfu yn fy ngardd ochr yn ochr â'r rhosyn 'Penny Lane' a 'Liverpool Hope'.

*Cofion,*
*David Williams (Karslake).*

# LERPWL YN ENNILL CWPAN Y CYNGHRAIR






***Dydd Sul, Chwefror 27 cynhaliwyd ffeinal Cwpan Carabao yn Wembley gyda Lerpwl yn chwarae yn erbyn Chelsea.***
***Cafwyd gêm gystadleuol iawn ac ar ôl 90 munud ac amser ychwanegol nid oedd posib eu gwahanu gyda'r sgôr yn 0-0.***
***Yna cymerwyd penaltis gyda pob un o'r chwarewyr allanol yn sgorio a daeth y gêm i ben gyda gôl-geidwad Lerpwl, Kelleher yn sgorio i ennill y gwpan***




***Y gymuned bêl-droed mewn undod yn erbyn rhyfel yn Wcrain***